# Pwyllgor Menter a Dysgu
**EL(3) 07-08 (p2) : 5 Mawrth 2008**

**Cyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru:**
**Tystiolaeth a gyflwynir gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru**

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn croesawu Ymchwiliad y Pwyllgor ar y thema bwysig hon ac mae'n ddiolchgar am y cyfle i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth ei waith. Dyma strwythur y cyflwyniad ysgrifenedig sy'n dilyn:

1 Golwg yn fyr ar Y Brifysgol Agored yng Nghymru: cyllido, darpariaeth a dysgwyr

2 Cyfraniad economaidd Y Brifysgol Agored yng Nghymru trwy ei chwricwlwm a thrwy addysgu, gan gynnwys gwaith gyda chyflogwyr ac ehangu mynediad

3 Y buddion ehangach, yn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n deillio o waith Y Brifysgol Agored yng Nghymru

## 1 Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Sefydlwyd Y Brifysgol Agored yn 1969, gyda'r myfyrwyr cyntaf yn cofrestru yn 1971. Mae'n arweinydd byd-eang o ran darparu cyfleoedd i ddysgu o bell sy'n arloesol a hyblyg ar lefel addysg uwch. Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol trwy ddarparu addysg brifysgol o ansawdd uchel i bawb sy'n dymuno gwireddu eu huchelgais a chyflawni eu potensial. Mae'n darparu cymysgedd unigryw o arbenigedd a phrofiad, o safbwynt cynllunio a chyflwyno rhaglenni dysgu hyblyg, sydd ar gael i bobl o bob oed a chefndir, gyda chefnogaeth y dechnoleg ddiweddaraf, ac a gyflwynir yn uniongyrchol i'r cartref a'r gweithle ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn un o 'genhedloedd a rhanbarthau' Y Brifysgol Agored yn ehangach, a chanddi boblogaeth o 6,000 o fyfyrwyr (2,500 FTE yn fras). Mae pob un o'r myfyrwyr hyn yn byw yng Nghymru a'r cyfan yn astudio yn rhan amser. Ar lefel ehangach y Deyrnas Unedig (DU) dyma'r sefydliad addysg uwch mwyaf yn y DU yn ôl nifer y myfyrwyr, gyda 200,000 o fyfyrwyr (gan gynnwys nifer sylweddol o'r tu allan i'r DU).

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnig dros 550 o gyrsiau, o sesiynau blasu i gyfleoedd ôl-raddedig. Mae llawer o gymwysterau'r Brifysgol Agored – o dystysgrifau i MBA – yn cael eu cydnabod a'u hachredu gan gyrff proffesiynol ledled y byd. Un o nodweddion arbennig rhan amser y brifysgol yw ei bod yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg a mathemateg.


Mae canolfan weinyddol Y Brifysgol Agored yng Nghymru yng Nghaerdydd ac mae tair ar ddeg o ganolfannau tiwtorial ar draws Cymru. Mae 300 o staff addysgu rhan amser ar draws y wlad sy'n cyflwyno cyrsiau a chefnogi myfyrwyr.

Mor ddiweddar â 2005/06 fe drosglwyddodd Y Brifysgol Agored yng Nghymru at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCUAC) o safbwynt cyllido ar gyfer addysg a dysgu, er mwyn unioni ei strategaethau â rhai'r Cyngor Cyllido a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyn cael ei ariannu gan CCAUC, câi'r Brifysgol ei hariannu ar gyfer addysg a dysgu trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE).

Lefel gyfredol y cyllido cyhoeddus trwy gyfrwng CCAUC i'r Brifysgol Agored yw tua £7.5M gydag arian ychwanegol ar gyfer Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol, cymorth ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhan amser a symiau bychan ar gyfer gwaith prosiect penodol a gyllidir trwy Gronfa Ddatblygu Strategol y Cyngor Cyllido. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod o drosglwyddo'r cyllido – tan yr haf 2010 – ni all y brifysgol fanteisio ar gyllido trydedd genhadaeth a rhai ffrydiau ariannu eraill. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi hefyd, er bod gweithgareddau ymchwil y brifysgol yn cynnwys peth gweithgarwch a chydweithredu o fewn Cymru, y daw arian cyhoeddus ar gyfer ymchwil i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd trwy law HEFCE.

Proffil myfyrwyr

- 6,000 o fyfyrwyr (oddeutu 2,500 llawn amser cyfatebol) o bob cymuned yng Nghymru, fwy neu lai.
- Mae tri o bob pedwar o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored yn gyflogedig tra maent yn astudio.
- Mae'r mwyafrif yn astudio am resymau yn ymwneud â sgiliau: symud ymlaen mewn gwaith; diweddaru proffesiynol, newid gyrfa neu fynd i mewn i'r farchnad waith o'r newydd.
- Mae dysgu'n rhan amser gyda'r Brifysgol Agored yn eu cefnogi i wella eu haddasrwydd i waith a meithrin ac arddangos sgiliau meddal allweddol.
- Oed cyfartalog (canolrif) ein myfyrwyr israddedig newydd yw 32
  - mae 40 % o'n holl fyfyrwyr dan 34 oed.
  - mae 31 % yn 35 – 44 oed
  - mae 30 % yn 45 a throsodd
- Datganodd 8% o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru fod ganddynt anabledd
- Mae dros chwarter ein myfyrwyr ar incwm isel neu'n ddi-waith. Maent yn gallu astudio oherwydd bod eu ffïoedd cwrs yn cael eu hepgor. Mewn llawer o achosion, trwy astudio maent yn dychwelyd neu'n agor llwybr at weithgarwch economaidd.
- Gyda pholisi mynediad agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau er mwyn astudio ar lefel gradd – mae dros draean ein myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn ymuno â ni heb gymwysterau lefel mynediad prifysgol safonol
- Rhoddir crynodeb o boblogaeth myfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn ôl dosbarthiad pynciau academaidd isod:



- Daw 3% o’n myfyrwyr o grwpiau pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig
- Gosodir Y Brifysgol Agored ar y brig yng Nghymru ac ar y brig yn y DU am fodlonrwydd cyffredinol ymysg myfyrwyr yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr

## 2 Cyfraniad economaidd Y Brifysgol Agored yng Nghymru trwy gyfrwng ei chwricwlwm a’i haddysgu

Dangosodd arolwg Leitch yn eglur mor hanfodol bwysig yw codi lefelau sgiliau yn gyffredinol er mwyn creu economi fwy ffyniannus a bywiog. O ddatblygu sgiliau i bawb, mae yna botensial hefyd i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a thegwch gyda manteision ehangach yn gymdeithasol a diwylliannol. Nododd Leitch, yn arwyddocaol, bod newid demograffig yn golygu bod dwy ran o dair o weithlu 2020 eisoes o oed gweithio. Mae’n dilyn bod yn rhaid i gyfleoedd dysgu ar gyfer oedolion fod yn rhan hanfodol o unrhyw strategaeth sgiliau.

Trwy alluogi pobl i barhau i weithio ac ennill tra byddant yn datblygu eu sgiliau, gall hyblygrwydd dysgu rhan amser helpu pobl o bob oed a chefndir i adeiladu gwybodaeth a galluoedd newydd. Fel y cydnabyddir yn ail arolwg Rees, i lawer o fyfyrwyr, darpariaeth ran amser yw’r unig ffordd o gael mynediad at addysg uwch a sgiliau Lefel 5. O fewn y cyd-destunau hyn, y mae cyfraniad arbennig Y Brifysgol Agored i addysg uwch yng Nghymru yn amlwg. Y mae natur ei darpariaeth yn cynnig cyfleoedd dysgu i bobl mewn ardaloedd pellennig yn ddaearyddol neu bobl a leolir yn y cartref, neu sy’n methu fforddio cyfaddawdu o ran incwm neu sicrwydd gwaith. Yn ogystal, mae’n rhoi cyfle i gyflogwyr a gweithwyr gael lefel uchel o hyblygrwydd ym maes dysgu seiliedig ar waith, gan nad yw astudio gyda’r Brifysgol Agored yn gofyn am fynychu ar adegau arbennig fel sy’n ofynnol fel arfer pan gyflwynir addysg uwch wyneb yn wyneb. Trwy agor cyfleoedd mynediad at addysg uwch, mae dysgu rhan amser yn dod ar gael i ddysgwyr a chymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae’r Brifysgol Agored yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i hyrwyddo a datblygu sgiliau lefel uwch. Mae’r dewisiadau yn amrywio o noddi staff unigol ar gyrsiau, i hyfforddiant ar gyfer cwmnïau cyfan a rhaglenni wedi’u teilwra yn arbennig. Ym mlwyddyn academaidd 2006/7 roedd 304 o sefydliadau cyflogi yng Nghymru yn noddi 924 o fyfyrwyr. Gwelwyd mwy o dwf yn y flwyddyn academaidd gyfredol gyda chynnydd o 4.4% yn y myfyrwyr sy’n byw yng Nghymru, sef 965.

Dros y cyfnod hwn o ddwy flynedd, y sector preifat yw’r amlycaf o lawer ymysg y sefydliadau sy’n noddi yng Nghymru. Gellir dosbarthu swyddogaethau’r cyrff sy’n noddi yn ôl y categorïau eang canlynol:

| | |
|---|---|
| Iechyd | 6% |
| Addysg | 15% |
| Sector cyhoeddus arall | 29% |
| Sector Preifat | 50% |

Mae’r cwricwlwm a gynigir gan Y Brifysgol Agored yn cynnwys modiwlau ar *‘Ymchwilio i Gyfleoedd Entrepreneuraidd’*, *‘Datblygu Syniadau Busnes Entrepreneuraidd’*, *‘Chi a’ch Arian’*, yn ogystal ag amrywiaeth eang o gyrsiau mewn astudiaethau busnes a rheoli. Mae’r Ganolfan ar gyfer Dysgu a Datblygu Proffesiynol o fewn y brifysgol yn datblygu cyrsiau sgiliau galwedigaethol byr ar lein, a bydd adain Gwasanaethau Cyflogwyr Corfforaethol y brifysgol yn gweithio gyda chyflogwyr ar raddfa fawr i gyflwyno addysg a

hyfforddiant penodol ar gyfer y gweithlu. Ymhlith yr enghreifftiau o gyflogwyr yr ydym wedi gweithio gyda nhw i gyflwyno (neu ddatblygu) dysgu seiliedig ar waith y mae Airbus, Asquith Nurseries a Water UK.

Adnawdd ar y we ar gyfer pobl sydd eisiau sefydlu eu busnes eu hunain yw *VentureNavigator*. Fe gafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2007, a'i ddatblygu gan y Brifysgol Agored mewn partneriaeth â phum sefydliad addysg uwch yn Lloegr, Cyngor Cenedlaethol Entrepreneuriaeth Graddedigion a sefydliadau eraill. Mae defnyddwyr yn mynd i'r wefan ac yn ateb cwestiynau gan ddefnyddio teclyn asesu, yna mae hwnnw'n paratoi adroddiad gyda dadansoddiad wedi'i feincnodi o sefyllfa fusnes yr unigolyn, gan gyfeirio'r defnyddiwr at adnoddau, boed ar y we neu adnoddau go iawn sy'n gallu cynnig atebion. Fe'i anelir at ddarpar entrepreneuriaid a'r rhai sy'n awyddus i wella busnes sy'n bodoli eisoes. Yn ehangach na hynny, mae'n ceisio cyfrannu at ddatblygu diwylliant o entrepreneuriaeth.

Mae'r Brifysgol Agored yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i ddarparu'r rhaglen gyntaf yn y DU a gafodd ei chynllunio'n benodol ar gyfer arweinwyr busnesau bach a chanolig sy'n seiliedig ar wybodaeth. Cafodd y cwrs Meistr mewn Busnes a'r Gyfraith ei ddatblygu gan gydweithio trwy gefnogaeth y Gronfa Manteisio ar Wybodaeth (KEF) a chroesawyd y 34 myfyriwr cyntaf yn 2007. Mae'r cwrs yn mynd i'r afael â'r angen i gefnogi entrepreneuriaid i gaffael gwybodaeth am arbenigedd ym myd busnes a'r gyfraith.

Rhaglen arloesol arall y mae'r Brifysgol Agored yn ei chydlynu ar draws Cymru gyda darparwyr eraill yw rhaglen *Addysgu Eto/Teach Again*. Cafodd y rhaglen hon ei chynllunio ar gyfer athrawon cymwysedig cynradd ac uwchradd a fu allan o'r proffesiwn am beth amser ac sy'n dymuno cychwyn – neu ddychwelyd – i ddysgu ar lefel ysgol uwchradd. Bwriad y cwrs yw diweddaru sgiliau a gwybodaeth bynciol, meithrin hyder a chynnig cefnogaeth tiwtor a phrofiad mewn ysgol uwchradd leol, gan roi profiad gwerthfawr yn ôl yn ystafelloedd dosbarth Cymru.

Mae'r Brifysgol Agored yn gweithio'n agos gydag undebau llafur a chyrff eraill i hyrwyddo a datblygu dysgu a sgiliau. Datblygwyd cytundebau partneriaeth i wella mynediad unigolion at ddatblygu addysgol a gyrfa ac i fapio llwybrau gyrfa gyda TUC Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Mae'r Brifysgol yn cydweithio ar nifer o fentrau Cronfa Ddysgu Undebau Cymru yn y sector gofal iechyd, ac mae gwaith partneriaeth gydag UNISON i gefnogi gweithwyr gofal iechyd ar draws Cymru yn cynnwys 100 yn cofrestru bob blwyddyn ar gyfer y modiwl *'Deall Iechyd a Gofal Cymdeithasol*'. Trwy fod yn aelodau o undebau llafur, gall bron i 20 y cant o'r oedolion yng Nghymru fanteisio ar y gostyngiad, y cyfleoedd a'r cyngor a'r arweiniad arbenigol yn sgil y bartneriaeth rhwng TUC Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

Yn ddiweddar, derbyniodd Y Brifysgol Agored yng Nghymru ragor o fuddsoddiad gan CCAUC yn dilyn argymhellion Adolygiad Graham. Mae cyfran sylweddol o'r buddsoddiad hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer gweithio gyda chyflogwyr, ac yn benodol fe fydd yn canolbwyntio ar weithio gyda Chynghorau Sgiliau Sector. Mae'r gwaith hwn ar gamau cynharaf ei ddatblygiad.

Mae'r Brifysgol Agored yn bartner yng nghonsortiwm llwyddiannus Metrix a fydd yn datblygu a rhedeg yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn yn Sain Tathan. Mae'r brifysgol yn gweithio ar y cyd i wireddu gweledigaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn o sefydlu canolfan ragoriaeth ym maes hyfforddiant milwrol a fydd yn ymwneud â darparwyr Addysg Uwch ac

Addysg Bellach yng Nghymru, ac ar yr un pryd yn hybu cyflogaeth a sgiliau ym Mro Morgannwg a thu hwnt.

Trwy weithio gyda chyflogwyr, cyrff cyflogwyr ac undebau llafur ym maes dysgu seiliedig ar waith gellir cyfrannu hefyd at faes ehangu mynediad i addysg uwch. Yn ogystal â'r gwaith a ddisgrifir uchod, mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnal gwaith wedi'i dargedu gyda grwpiau a chymunedau lle ceir patrymau cyfranogiad isel mewn addysg uwch. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i waith Y Brifysgol Agored o'r cychwyn cyntaf. Gydag arbenigedd y brifysgol o ran cyflwyno dysgu hyblyg, gall wneud dysgu ar lefel addysg uwch yn hygyrch i unigolion mewn grwpiau y tu allan i amgylchedd addysgu nodweddiadol.

Yn neilltuol, gyda'r cyfuniad o hyblygrwydd a'r strwythurau cefnogi hynod ddatblygedig, mae astudio gyda'r Brifysgol Agored yn ddewis delfrydol ar gyfer yr 8% o'n myfyrwyr a nododd eu bod yn anabl (tua 480 o bobl) ac ar gyfer llawer o'r gofalwyr a geir yng Nghymru. Mae 350,000 o bobl yn ofalwyr yng Nghymru ac i'r mwyafrif ohonynt mae mynediad at ddatblygu sgiliau confensiynol ac astudio addysg uwch yn anodd, yn wir mewn rhai achosion mae'n amhosib. Trwy'r ymroddiad a'r penderfyniad a ddangosir gan lawer ohonynt, mae'n golygu bod ganddynt y potensial i wneud cyfraniad gwerthfawr pan fyddant yn dychwelyd i'r gweithlu. Y mae llawer o hanesion cadarnhaol sy'n dangos sut y bu astudio gyda'r Brifysgol Agored o gymorth i ofalwyr ddychwelyd i weithio, eu helpu i ddatblygu eu gyrfa, neu eu galluogi i gyfrannu at eu cymunedau neu at weithgarwch gwirfoddol.

Gall astudio gyda'r Brifysgol Agored fod yn fodd hefyd i garcharorion ddiweddaru eu sgiliau a dangos eu sgiliau i ddarpar gyflogwyr adeg eu rhyddhau. Mae oddeutu 30 o bobl bob blwyddyn yng ngharchardai Cymru (Brynbuga yn bennaf) yn astudio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae'r mwyafrif yn astudio cyrsiau gwyddoniaeth, technoleg, mathemateg neu astudiaethau busnes.

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae bron i 2,500 o unigolion yng Nghymru wedi cymryd rhan yn ein rhaglenni *Openings* sy'n pontio'r bwlch rhwng addysg bellach ac addysg uwch ac yn mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl rhag gweithgarwch addysgol ac economaidd. Cafodd y cyrsiau hyn eu cynllunio i annog dysgwyr lle nad yw dysgu fel israddedigion yn opsiwn ar hyn o bryd ond bod dysgu ar y cam 'dychwelyd at ddysgu' neu mewn perthynas â datblygu sgiliau galwedigaethol yn bwysig. Bychan yw buddsoddiad y myfyrwyr ar gyfer y cyrsiau hyn, o ran amser ac arian, a hynny ar fwriad, ond y maent yn codi hyder a lefelau cyrhaeddiad yr unigolion yn sylweddol. Cyflwynir y cyrsiau trwy gyfrwng naill ai lwybrau arferol dysgu o bell Y Brifysgol Agored neu mewn rhai achosion trwy ddosbarthiadau wyneb yn wyneb a gyflwynir mewn cydweithrediad â Sefydliad y Gweithwyr. Datblygiad newydd yn y portffolio *Openings* yw cwrs rhagarweiniol ar lein ar 'Archwilio Chwaraeon' gyda'r bwriad o fod yn gwrs atyniadol ar gyfer oedolion gwrywaidd iau (ymysg eraill).

## 3 Y buddion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach sy'n deillio o waith Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Mae'r Brifysgol Agored yn dod â buddion i'r sector addysg uwch yng Nghymru sy'n deillio o'i rôl fel sefydliad ledled y DU ac fel darparwyr byd-eang. Y pennaf yn eu plith, o bosib, yw'r datblygiadau sydd ar flaen y gad ym maes technoleg addysgu a dysgu, ac addysgu yn seiliedig ar y we.

Bu’r Brifysgol Agored yn arwain y farchnad o ran e-ddysgu a defnydd addysgol ar dechnoleg ers rhai blynyddoedd ac mae’r datblygiadau cyfredol ym maes Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) yn ganolog i’n darpariaethau e-ddysgu. Buddsoddwyd £5 miliwn yn hyn mewn llai na 3 blynedd ac eisoes mae myfyrwyr a busnesau Cymru yn elwa ar fynediad o bell at weithgareddau a deunyddiau addysgol o safon fyd-eang.

Mae’r cyfleusterau VLE yn hwyluso dysgu ar y cyd gan ddefnyddio meddalwedd cymdeithasol megis blogiau, wikis a fforymau. Gall myfyrwyr, tiwtoriaid a thimau cwrs gyfrannu pryd bynnag y bo’n gyfleus iddynt. O ran myfyrwyr a thiwtoriaid, mae hyn yn golygu y gallant ffitio eu hastudio/gwaith i’r Brifysgol Agored o amgylch cyfrifoldebau teuluol, gofalu a/neu swydd.

Mae’r VLE yn cynnwys cyfrwng chwilio llyfrgell arbenigol sydd, yn wahanol i Google, yn chwilio a chanfod gwybodaeth sydd â sicrwydd ansawdd. Mae hyn yn adnawdd hynod werthfawr yn enwedig i fyfyrwyr yng Nghymru lle nad oes mynediad hawdd at lyfrgell academaidd.

*OpenLearn* yw menter Open Content y brifysgol, gan wneud adnoddau addysgol ar gael am ddim ar y Rhyngrwyd, gyda’r teclynnau cefnogi dysgu a chydweithio diweddaraf i gysylltu dysgwyr ac addysgwyr. Yn ei blwyddyn gyntaf, ychwanegwyd dros 3,700 awr o gynnwys ac mae swm y deunydd sydd ar gael ar lein yn parhau i dyfu. Cafodd O*penLearn* ei ddylunio i ddenu dysgwyr newydd hefyd, a allai ddewis mynd ymlaen at astudiaethau mwy ffurfiol a achredir.

Nodwyd ar ddechrau’r papur hwn fod Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cael ei hariannu gan CCAUC ar gyfer cyflwyno addysgu a dysgu, ond nid ar gyfer gwaith ymchwil. Er hynny, mae gweithgarwch ymchwil y brifysgol ledled y DU yn cynnwys ymchwil a chydweithredu o fewn Cymru, neu sy’n arbennig o berthnasol i Gymru, a chyfeirir yn fyr at hyn isod.

Llwyddiant arbennig yn ddiweddar fu cwblhau’r prosiect Mawrth-Beagle a thaith Cassini Huygens (gan gydweithio â Phrifysgol Aberystwyth, ymysg eraill). Trwy droi galluoedd synhwyro technegol y prosiectau archwiliadol hyn yn ddyfeisiau ymarferol mae yna fuddion i iechyd a lles – un enghraifft ddiweddar fyddai’r gwaith datblygu a wnaed ar synhwyrydd Beagle i lunio teclyn newydd ar gyfer canfod twbercwlosis (TB) gyda chyllido strategol sylweddol gan Ymddiriedolaeth Wellcome. Gellir defnyddio’r un dyfeisiau fel synwyryddion o bell ar gyfer monitro amgylcheddol (e.e. ansawdd dŵr) ac agweddau ar ddiogelwch tir mawr (e.e. profi am gyffuriau).

Ar hyn o bryd mae’r Brifysgol Agored yn datblygu cyfleuster newydd o bwys, sef Labordy Gofal Iechyd Treiddiol. Gan adeiladu ar ei hymchwil o safon fyd-eang mewn Dylunio, Cyfrifiadureg a Thechnoleg Addysg, mae’r Brifysgol mewn safle arbennig o dda i chwarae rôl allweddol yn natblygiad Gofal Iechyd Treiddiol a chefnogi’r agendâu gofal iechyd ar draws y DU ym meysydd annibyniaeth, lles a dewis, a mynd i’r afael â dysgu cynaliadwy ‘technoleg uchel’ ac atebion eraill sy’n gwella bywyd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae gan y Brifysgol Agored arbenigedd yn benodol o ran cymhwyso a gweithredu technolegau newydd ar gyfer gofal sy’n canolbwyntio ar bobl, gan fanteisio ar ragoriaeth o ran dylunio ac arloesi. Felly, ni fydd y Labordy newydd yn canolbwyntio ar driniaethau meddygol ar gyfer cleifion, eithr ar y modd y gellir defnyddio technolegau newydd symudol, di-wifr ac eraill i wella lles pobl (e.e. rheoli ffordd o fyw) trwy alluogi ac ymwneud. Bydd y Brifysgol Agored yn datblygu’r prosiectau hyn trwy ei chysylltiadau â Chyfrifiadura ym Mhrifysgol Abertawe. Dylid nodi hefyd gyfraniad ehangach y datblygiad newydd nodedig

hwn o ran dilyniant sgiliau TGCh yng Nghymru, gwella'r ddarpariaeth i gymunedau gwledig a gwell gallu i gystadlu yn economaidd yn sgil technoleg.

Mae Canolfan Ymchwil ac Arloesi Addysg Uwch (CHERI) Y Brifysgol Agored newydd ddarfod, neu wrthi'n gweithio ar, brosiectau ymchwil a datblygu a all gyfrannu gwybodaeth yn uniongyrchol at waith Pwyllgor Menter a Dysgu y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Regional Perspectives on the role of HEIs in Social Transformation* (nawdd ESRC)
- *The Role of Employer Engagement in Course Development* (nawdd DES)
- *Higher Education in Europe Beyond 2010: Resolving Conflicting Social and Economic Expectations* (ariannwyd gan Sefydliad Gwyddoniaeth Ewrop, mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch yn yr Iseldiroedd, Ffrainc, yr Almaen a'r Ffindir)
- *The Flexible Professional in the Knowledge Society* (ariannwyd gan Raglen Fframwaith 6 yr UE, mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch mewn pedair gwlad ar ddeg)

Mae'r Brifysgol Agored yn ymwybodol o adran olaf ond un cylch gorchwyl Ymchwiliad y Pwyllgor, sef ystyried 'cyfraniad ehangach prifysgolion i'w hardaloedd lleol, gan gynnwys gwaith cymunedol, cyfraniadau diwylliannol a symudoledd myfyrwyr a graddedigion a marchnadoedd'. Fe fydd yn glir o'r paragraffau blaenorol nad oes gan y Brifysgol Agored 'ôl troed' corfforol yn lleol na rhanbarthol yn yr un ffordd â'r hyn sydd gan sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru. Y mae'n sefydliad 'Cymru gyfan' â'i ôl troed yn bodoli trwy gyfrwng cyfryngau darlledu a'r rhyngrwyd, a thrwy ei gymuned o fyfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a staff, a ddosberthir ledled y wlad. Yn fwy na hynny, hyd yn oed, y mae cyfraniad y Brifysgol Agored o ran diwylliant yn un sylweddol, a hynny'n fwyaf arbennig trwy ei fenter *OpenLearn* (a ddisgrifir uchod) a thrwy ei gynyrchiadau ar y cyd â'r BBC.

Mae gan Y Brifysgol Agored a'r BBC bartneriaeth strategol. Drwyddi mae'r Brifysgol Agored yn cyd-gynhyrchu a chyd-ariannu 20-25 o brosiectau teledu a radio bob blwyddyn. Mae'n bosib mai'r cynyrchiadau mwyaf amlwg yn ddiweddar fu'r gyfres fawr *Life in Cold Blood* gan Syr David Attenborough a *Coast*, ond mae *The Money Programme* hefyd yn gynhyrchiad ar y cyd â'r Brifysgol Agored, ac yn ddiweddar fe gytunodd y brifysgol i weithio gyda BBC Radio 4 ar y rhaglen *Thinking Aloud*. Cynhyrchiad newydd ar y cyd â BBC4 (teledu) yw rhaglen am hanes cerddoriaeth grefyddol Ewrop, *Sacred Music*. I gyd-fynd â rhaglenni megis *Coast* a *Life in Cold Blood* ceir gweithgareddau allgymorth er mwyn denu a hysbysu unigolion, ac ar gyfer y gyfres *Nature in Britain* roedd yna adrannau penodol ar gyfer dangos darnau a gynhyrchwyd gan BBC Cymru.

Mae cyrhaeddiad byd-eang Y Brifysgol Agored fel darparwr addysgol yn fwy yn sgil llawer o'r cynyrchiadau hyn. Yn ogystal, mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cychwyn ar ddatblygu deunyddiau cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar Gymru ond a fyddant yn cael eu cynnig ledled y byd. Mae hyn yn cynnwys cwrs 'Beginners Welsh' a fydd yn cael ei lansio yn yr hydref 2008 a chwrs newydd 'Heritage Studies' gyda chydrannau sylweddol ac astudiaethau achos Cymreig. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru hefyd yn datblygu cwrs newydd ar Hanes Cymru ar gyfer 2009 ('Small Country, Big History'), a fydd yn cynnwys mynd ati'n benodol i ddatblygu adnawdd seiliedig ar y we am hanes Cymru, a dyddiau agored i ysgolion i gyd-fynd â hyn a fydd ar agor i'r cyhoedd yn ogystal â myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y cwrs.

Mae gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru gefndir llwyddiannus o gyfrannu at ddatblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y wlad, ac ehangu mynediad at addysg uwch. Daw’r cyfle i wella ei gyfraniad yn sgil y symudiad at ariannu trwy gyfrwng CCAUC. Gyda’r buddsoddiad ychwanegol yn dilyn Adolygiad Graham (i gynnwys gwaith newydd ym maes ymgysylltu â chyflogwyr a chyda SSCs, ac ehangu mynediad, a mwy o ffocws ar weithgarwch cydweithredol) fe fydd yn gwella mwy byth ar statws ac amrywiaeth y gweithgareddau o fewn y brifysgol, sydd, ynghyd â gweddill y sector, yn ased hanfodol sy’n perthyn i bobl Cymru ac yn adnawdd ar eu cyfer.